

Hysbysebu

Cwestiynau cyffredin ynglŷn
â beth sy'n hysbysebu
cyfreithlon ar gyfer: swyddi;
nwyddau, cyfleusterau a
gwasanaethau; a llety



Mae cyflwyno neu gyhoeddi hysbyseb sy'n gwahaniaethu yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf'). Mae'r Ddeddf yn diogelu unigolion rhag cael eu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac oed. ('nodweddion gwarchoddedig').

Mae'r canllaw hwn yn rhoi atebion i gwestiynau y mae hysbysebwr yn eu gofyn yn aml am hysbysebu swyddi gwag, darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, a llety.

Rhennir y cwestiynau cyffredin hyn yn dair rhan::

1. Hysbysebu swyddi gwag

2. Hysbysebu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau

3. Hysbysebu llety

1. Hysbysebu swyddi gwag

Yn gyffredinol, dylai swyddi gwag fod ar gael i bawb, beth bynnag eu nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, gall cyflogwr ofyn i ymgeisydd swydd neu gyflogai fod â nodwedd warchoddedig benodol pan fo'n angenrheidiol ar gyfer rôl arbennig (mae'n 'ofyniad galwedigaethol'), neu mae un o'r eithriadau penodol yn y Ddeddf yn gymwys. Pan fo gofyniad galwedigaethol yn gymwys, rhaid i'r cyflogwr sicrhau y gellir cyfiawnhau gosod y gofyniad yn wrthrychol. Er mwyn gallu ei gyfiawnhau'n wrthrychol rhaid bod angen dilys am y gofyniad a rhaid i'r gofyniad fod yn ffordd gymesur o ateb yr angen hwnnw. Mae bod yn gymesur yn golygu nad oes dewis llai gwahaniaethol arall o gyflawni'r angen hwnnw.

Dylai hysbysebion egluro'n eglur y sylfaen a'r rhesymau ar gyfer gofyniad i fod â nodwedd warchoddedig benodol.

Oed

C. C. A all cyflogwr ofyn i asiantaeth gyflogi hysbysebu am unigolyn graddedig ifanc.

- A. A. Na, mae rhoi cyfarwyddiadau i wahaniaethu, a chydymffurfio â nhw, yn anghyfreithlon. Mae hysbyseb sy'n dynodi mai pobl ifanc yn unig sy'n gymwys i'w dethol yn enghraifft o wahaniaethu ar sail oed, oni bai y gellir ei gyfiawnhau yn wrthrychol. Byddai'r cyflogwr a'r asiantaeth gyflogi yn atebol am unrhyw wahaniaethu. Mae'n arfer da i hysbyseb ddisgrifio unrhyw ofynion angenrheidiol, doniau, cymwyseddau neu'r profiad gofynnol ar gyfer swydd a bydd hyn yn helpu i gael cynifer o ymgeiswyr o ansawdd uchel â phosibl.

C. . A all cwmni cludo hysbysebu am yrwyr lori gymalog dan 55 oed, oherwydd dengys ystadegau bod yna risg uwch o drawiad ar y galon wedi'r oed hwn.

- A. . Na yn ôl pob tebyg. Mae'n wahaniaethu ar sail oed ac yn anghyfreithlon hysbysebu mai pobl o oed penodol yn unig sy'n gymwys i'w dethol oni bai y gall y cyflogwr gyfiawnhau hynny. Yn yr achos hwn gallai gwiriadau meddygol ar gyfer pob gyrrwr waeth beth yw eu hoedran fod yn ffordd lai gwahaniaethol i ddiogelu diogelwch y cyhoedd.

Anabledd

C. A all cyflogwr hysbysebu am unigolyn ffit a phrysur?

- A. Bydd hysbyseb sy'n dynodi mai pobl sy'n gorfforol ffit a phrysur sy'n gymwys yn unig i'w dethol yn gwahaniaethu ar sail anabledd, oni bai bod y gofyniad yn ffordd gymesur o ateb angen gwirioneddol i'r deiliad swydd fedru ymgymryd â thasgau corfforol penodol. Yn yr achos hwnnw, mae'n arfer da i'r hysbyseb egluro hynny ac amlinellu'r tasgau, doniau a galluoedd penodol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.

C. A all cyflogwr hysbysebu am unigolion sydd â thrwydded yrru ddilys?

- A. Gall cyflogwr gyfyngu ceisiadau i bobl sydd â thrwydded yrru ddilys dim ond os yw gyrru yn ofyniad hanfodol o'r rôl, er enghraifft, swydd gwerthu nwyddau lle mae angen teithio. Gallai gofyniad i fod â thrwydded yrru ddilys wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn pobl anabl. Os yw'r swydd yn gofyn am rywun i deithio o bryd i'w gilydd, yna gallai'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus neu dacsis fodloni'r gofyniad hwn mewn ffordd lai wahaniaethol.

Rhyw

C. A all contractwr adeiladu hysbysebu am lafurwyr gwrywaidd yn unig?

- A. Na, mae hysbyseb sy'n dynodi mai pobl o ryw neilltuol sy'n gymwys i'w dethol yn enghraifft o wahaniaethu ac yn anghyfreithlon, oni bai bod gofyniad galwedigaethol yn gymwys. Os yw'r rôl yn gofyn am godi pethau trymion, yna dylai'r hysbyseb ddynodi'r gallu hwnnw, fel y gall ymgeiswyr benderfynu ymgeisio neu beidio.

C. A all dyn neu ddynes sydd â gofynion gofal hysbysebu am unigolyn o ryw neilltuol i ofalu amdano neu amdani?

- A. Byddai hyn yn gyfreithlon os gellir dangos bod cael gofalwr o ryw neilltuol yn ffordd gymesur o ateb angen dilys ar gyfer y swydd honno. Efallai gellir bodloni'r amgylchiadau hyn os yw'r gwasanaeth yn ymwneud â gofal personol iawn, sy'n effeithio ar breifatrwydd personol, a bod gwrthwynebiad rhesymol yn erbyn cael gwasanaeth gan rywun o'r ryw arall..

C. A all lloches i ferched hysbysebu am weithiwr benywaidd?

- A. Gall, yn ôl pob tebyg bydd hyn yn gyfreithlon. Os gall y cyflogwr ddangos bod gofyniad galwedigaethol i'r deiliad swydd fod yn fenywaidd, er enghraifft mae ei gleientiaid benywaidd angen gofal a sylw neilltuol neu amgylchedd diogel y gall gweithiwr benywaidd yn unig ei gynnig, yna byddai hyn yn gyfreithlon.

C. A all salon harddwch hysbysebu am ddylinwyr benywaidd?

- A. Gall, yn ôl pob tebyg bydd hyn yn gyfreithlon. Gall cyflogwr gyfyngu swydd wag yn gyfreithlon os dengys bod angen gwirioneddol i'r busnes gael staff benywaidd (neu ddigon o staff benywaidd) a bod gofyn am ymgeisydd benywaidd yn ffordd gymesur o ateb yr angen hwnnw. Yn yr achos hwn, gall rhai gwasanaethau olygu cyswllt corfforol personol a gall cleient benywaidd yn rhesymol wrthod cael y gwasanaeth personol hwn gan ddyn..

Hil neu genedligrwy

C. A all cyflogwr hysbysebu am gyflogeion o genedligrwydd neilltuol, er enghraifft gweithwyr o Wlad Pwyl neu Ddwyrain Ewrop?

- A. Na all. Gwahaniaethu anghyfreithlon yw oni bai bod gofyniad galwedigaethol i fod o genedligrwydd neilltuol. Os bydd swydd yn gofyn am y gallu i siarad iaith arall, yna dylid dynodi hynny fel gallu gofynnol. Er enghraifft, efallai y bydd gwasanaeth therapi ar gyfer pobl sy'n siarad Pwyleg yn hysbysebu am gynghorwr sy'n rhugl yn yr iaith honno. Gallai unigolion fod yn rhugl mewn Pwyleg fel iaith gyntaf neu ail iaith, felly ni ellid cyfiawnhau gofyniad i fod o genedligrwydd neilltuol. Arfer da fyddai hysbysebu yn Saesneg yn ogystal â Phwyleg fel y gall pob ymgeisydd posibl ddeall y gofyniad a'r rheswm amdano.

Crefydd neu gred

C. A all synagog uniongred hysbysebu i'w rabi fod yn ddyn?

- A. Gall. Gall sefydliad crefyddol gyfyngu rhai swyddi i ddynion os yw'r gofyniad bod yn wrywaidd yn ymwneud â'r angen i gydymffurfio ag athrawiaeth y grefydd neu osgoi gwrthdaro yn erbyn credoau crefyddol nifer arwyddocaol o ddilynwyr y grefydd. Fodd bynnag, byddai'n debygol o fod yn anghyfreithlon i hysbyseb ddynodi y dylai cyfrifydd ar gyfer y synagog fod yn wrywaidd oherwydd nid yw'n debygol y bydd angen cyfrifydd benywaidd i gydymffurfio ag athrawiaethau'r grefydd neu osgoi gwrthdaro â chredoau nifer arwyddocaol o ddilynwyr y grefydd.

C. A all sefydliad crefyddol gyfyngu ei swyddi i rai sy'n addoli crefydd neilltuol?

- A. Gall, mewn rhai amgylchiadau. Mae'n gyfreithlon cyfyngu swyddi gwag i bobl o grefydd neilltuol pan fo, yng ngolau ethos crefyddol y sefydliad a natur neu gyd-destun y gwaith, gofyniad galwedigaethol y gellir ei gyfiawnhau. Gall elusen Gristnogol ofyn i'w phrif weithredwr fod yn Gristion, pan fo angen dealltwriaeth fanwl o athrawiaeth Gristnogol i wneud y swydd. Fodd bynnag, ni all sefydliad crefyddol roi unrhyw gyfyngiad ar rolau lle nad oes angen i'r ymgeisydd addoli unrhyw grefydd neilltuol. Er enghraifft, byddai'n anghyfreithlon cyfyngu rôl gweinyddwr neu ofalwr safle i ymgeiswyr o grefydd neilltuol.

C. A all ysgol Gatholig hysbysebu am ysgrifennydd Catholig

- A. Na. Nid yw gofyn i ysgrifennydd ar gyfer ysgol Gatholig i fod yn Gatholig yn debygol o fod yn gyfreithlon oherwydd nid yw'n debygol y bydd angen i'r ymgeisydd fod yn Gatholig i allu gwneud y swydd honno.

C. A all cartref gofal yn seiliedig ar ffydd hysbysebu am ofalwyr o ffydd neilltuol?

- A. Gall, mewn rhai amgylchiadau. Gall cartref gofal yn seiliedig ar ffydd hysbysebu rhai swyddi sydd wedi eu cyfyngu i bobl o ffydd neilltuol os gall ddangos bod hyn yn ffordd gymesur o ateb gofyniad galwedigaethol ar gyfer y swydd honno. Er enghraifft, gallai cartref gofal ofyn i'w ofalwyr ymgymryd â'u dyletswyddau mewn ffordd sy'n ateb anghenion ysbrydol claf yn ogystal â'i anghenion corfforol, megis gweddio gydag ef. Fodd bynnag, byddai'n anghyfreithlon i gymhwyso'r gofyniad hwn i aelodau staff cynnal, i staff y dderbynfa, yr ardd neu staff gweinyddu, gan nad yw darparu cefnogaeth ysbrydol i glaf yn debygol o fod yn ofyniad i'r swyddi hynny.

Cyfeiriadedd rhywiol

C. A all sefydliad sy'n darparu gwasanaethau gofal personol ar gyfer unigolion hysbysebu am weithwyr o gyfeiriadedd rhywiol neilltuol?

A. Na, byddai hyn yn anghyfreithlon oni bai gellir dangos bod cael gofalwr o gyfeiriadedd rhywiol neilltuol yn ffordd gymesur o ateb gofyniad dilys ar gyfer y swydd honno. Ni fyddai rhesymol i wrthod gwasanaeth gan rywun ar sail ei gyfeiriadedd rhywiol.

C. A all gwesty hysbysebu mai dim ond yn unig ar gyfer cyplau sy'n cynnwys y ddau ryw mae ei ystafelloedd dwbl oherwydd credoau crefyddol ei berchennog?

A. Na all. Ni all gwesty wrthod i ddarparu ystafelloedd dwbl neu unrhyw wasanaeth arall i gyplau o'r un rhyw – gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail cyfeiriadedd rhywiol fyddai hynny. Er bod rhai eithriadau cyfyng iawn yn galluogi sefydliadau crefyddol i gyfyngu'r gwasanaethau maent yn eu darparu ar sail cyfeiriadedd rhywiol, ni fyddent yn gymwys i sefydliad neu fusnes, megis gwesty, a'i unig neu brif bwrpas yw pwrpas masnachol.

2. Hysbysebu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau

Anabledd

C. A all bwyty fynnu 'nad yw cŵn yn cael dod i mewn'?

- A. A. Yn gyfreithlon gall bwyty wrthod mynediad i bobl â chŵn. Fodd bynnag, mae'n anghyfreithlon gwrthod mynediad i unigolyn anabl sydd â chi tywys i unrhyw le cyhoeddus heblaw mewn amgylchiadau eithriadol dros ben. Mae'n arfer da i wasanaethau hysbysebu 'caniateir cŵn tywys yn unig' er mwyn i'w ofynion mynediad fod yn gwbl glir. Am ragor o wybodaeth gweler ganllaw'r Comisiwn '[Cŵn tywys - Canllaw i fusnesau](#)'.

Rhyw

C. A all therapydd harddwch gyfyngu ei gwasanaethau i gleientiaid benywaidd?

- A. A. Gall. Mae eithriadau o fewn y Ddeddf yn caniatáu darparu gwasanaeth i un rhyw. Sefyllfaoedd nodweddiadol pan all busnes harddwch ddarparu gwasanaeth un rhyw yn gyfreithlon yw pan fydd:
- therapyddion yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac mewn cartrefi cleientiaid (am resymau diogelwch)
 - y therapi yn cynnwys cyffwrdd corfforol, fel tylino a gallai'r therapydd wrthod yn rhesymol ei ddarparu i ddyn (am resymau preifatrwydd a phersonol),
 - y gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio gan fwy nag un person ar yr un pryd ac mae menyw yn debygol o wrthod presenoldeb dyn, ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, a
 - gellir cyfiawnhau cyfyngu'r gwasanaeth i fenywod yn wrthrychol.

C. A all clybiau nos neu fariau hysbysebu diodydd hanner pris i ferched yn unig?

- A. Na. Mae hyn yn anghyfreithlon os bydd cwsmeriaid gwrywaidd yn cael gwasanaeth gwaeth yn gyffredinol. Gwaharddir gostwng prisiau diod, bwyd neu fynediad i gwsmeriaid benywaidd oni bai bod cwsmeriaid gwrywaidd yn cael yr un consesiwn ar noson arall sydd yr un mor boblogaidd.
-

C. A all campfeydd a phyllau nofio hysbysebu sesiynau i ferched yn unig?

- A. Mae'n gyfreithlon i wasanaethau hamdden hysbysebu rhai gwasanaethau un rhyw os allant ddangos y byddai darparu sesiynau i ferched yn unig yn ffordd gymesur o wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol yn gyffredinol, er enghraifft oherwydd na fyddai rhai menywod yn cymryd rhan mewn sesiynau nofio i'r rhywiau am resymau diwylliannol neu wyleidd-dra.
-

C. A all perchennog busnes benywaidd hysbysebu llogi offer i ferched eraill yn unig?

- A. Na, ni ellir cyfiawnhau cyfyngu darpariaeth offer neu nwyddau i ferched yn unig. Dylai dynion fedru llogi'r offer yr un mor gyfartal.
-

C. A all awdurdod iechyd lleol yn hysbysebu am 'grŵp cymorth tadau newydd'?

- A. Mae'n gyfreithlon hysbysebu grŵp cymorth un rhyw, os gall yr awdurdod iechyd ddangos mai anaml iawn y mae tadau newydd yn mynychu grŵp cymorth rhieni cymysg a bod darparu grwpiau dynion yn unig yn ffordd gymesur o wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol yn gyffredinol.
-

C. A all cwmni tacsî hysbysebu ei fod yn darparu gwasanaeth gan fenywod i fenywod yn unig?

- A. Mae'n anghyfreithlon i wasanaeth tacsî trwyddedig ddarparu gwasanaeth gan fenywod i fenywod yn unig. Fodd bynnag, gallai gwasanaeth tacsî hysbysebu wasanaeth gan fenywod yn unig os byddan nhw hefyd yn darparu gwasanaeth i ddynion a menywod. Byddai angen i'r gwasanaeth ychwanegol gan fenywod i fenywod yn unig fod yn ffordd gymesur o wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol yn gyffredinol, er enghraifft oherwydd bod rhai menywod ddim yn defnyddio tacsîs sy'n cael eu gyrru gan ddynion oherwydd ofnau diogelwch personol.

Crefydd neu gred

- C. A all grŵp rhyng-grefydd hysbysebu diwrnod gweddi sy'n eithrio dyneiddwyr ac anffyddwyr?**
- A. A. Gall, byddai hyn yn gyfreithlon mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, gall grŵp o sefydliadau crefyddol sy'n dymuno ymgynnull amryw o grwpiau crefyddol i drafod swyddogaeth gweddi eithrio dyneiddwyr ac anffyddwyr yn gyfreithlon o'r ymgynulliad hwn.

Mae rhaid bodloni'r amodau a ganlyn:

- Mae rhaid mai pwrpas y sefydliadau crefyddol yw arfer, hyrwyddo, neu ddysgu egwyddorion crefydd neu gred; alluogi pobl crefydd neu gred i gael budd, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn fframwaith y grefydd neu'r gred honno; neu hyrwyddo perthynas dda rhwng unigolion o grefyddau neu gredoau gwahanol.
- Rhaid i'r sefydliadau beidio â bod yn fasnachol yn bennaf.

3. Hysbysebu llety

Rhyw

C. A all menyw hysbysebu llety ar gyfer tenant benywaidd?

- A. Yn gyffredinol mae'n anghyfreithlon i landlord masnachol neu asiant gosod hysbysebu y dylai tenantiaid posibl fod â nodwedd warchoddedig neu i beidio â bod ag un. Fodd bynnag, mae'n gyfreithlon i gyfyngu rhyw tenant newydd os yw'r eiddo yn gymwys fel 'eiddo bach' o dan y Ddeddf, a bod yr unigolyn sy'n dymuno gosod neu isosod yr eiddo neu mae eu perthynas yn byw yn yr eiddo a bydd yn rhannu cyfleusterau, megis ystafell fyw, ystafell ymolchi neu gegin, gyda'r tenant newydd.

Q. A all dyn a gofynion gofal ganddo hysbysebu llety i ofalwr gwrywaidd fyw gydag ef yn y llety?

- A. Gall. Yn ychwanegol i'r eithriad 'eiddo bach', byddai hysbyseb am ddyn neu fenyw i fod yn ofalwr sy'n byw gyda'r unigolyn mae'n gofalu amdano/i yn ganiataol petai gofyn am denant o ryw neilltuol oherwydd natur agos y gofal.

Hil neu genedligrwydd

C. A all landlord neu asiant gosod hysbysebu llety sy'n gyfyngedig i denant o genedligrwydd neilltuol?

- A. Na, mae bob amser yn anghyfreithlon cyfyngu llety yn ôl hil neu ethnigrwydd.

Crefydd neu gred

C. A all unigolyn Catholig hysbysebu am Gatholig arall i rannu fflat?

- A. Gall, byddai hyn yn ganiataol os yw'r fflat yn gymwys fel 'eiddo bach' o dan y Ddeddf a bydd cyfleusterau i'w rhannu, megis cegin neu ystafell ymolchi.

Rhagor o wybodaeth

Q. Beth sy'n digwydd os cyflwynaf neu cyhoeddaf hysbyseb sy'n gwahaniaethu?

A. Os yw unigolyn o'r farn ei fod wedi dioddef sefyllfa o fod dan anfantais yn sgil yr hysbyseb sy'n gwahaniaethu, gall ddefnyddio'r hysbyseb fel tystiolaeth o wahaniaethu mewn hawliad yn eich erbyn. Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr hawl hefyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 i herio hysbysebion gwahaniaethol.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau arweiniol yn rhad ac am ddim:

- **Hysbysebu – Arwyddocâd cyfraith gydraddoldeb i hysbysebwr a chyhoeddwr**

- **Hysbysebu – Rhestr wirio o arfer da i hysbysebwr a chyhoeddwr**

- **Hysbysebu – Ymholi am hysbyseb sy'n gwahaniaethu**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth fanwl hefyd yng **Nghod Ymarfer Cyflogaeth Statudol** a'r **Cod Ymarfer Statudol y Gwasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Sefydliadau** sydd ar gael ar **wefan y Comisiwn**

Manylion Cyswllt

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o **wefan y Comisiwn**

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch ag **EASS**, gwasanaeth annibynnol ac yn rhad ac am ddim.

Website **www.equalityadvisoryservice.com**

Ffôn: **0808 800 0082**

Ffôn Testun: **0808 800 0084**

Oriau agor: **09:00 to 20:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener)**
10:00 to 14:00 (Dydd Sadwrn)

Drwy'r post: **FREEPOST Equality Advisory Support Service FPN4431**

Anfonwch unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn i: **correspondence@equalityhumanrights.com**
The Commission welcomes your feedback.

Fformatau amgenach

Mae'r canllaw hwn ar gael fel ffeil PDF o **wefan y Comisiwn**. Am wybodaeth ar gael cyhoeddiad Comisiwn mewn fformat gwahanol, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com** .

© 2016 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd Chwefror 2016

ISBN: 978-1-84206-663-8

© 2016 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd Chwefror 2016

ISBN: 978-1-84206-663-8